## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Bydd y Bil yn cyflwyno cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a fydd yn cwmpasu meddiannu adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru a'u rheoli'n barhaus.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Caiff pobl eu diogelu rhag gwahaniaethu yn y gweithle, pan fyddant yn defnyddio busnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau a phan fyddant yn dod i gysylltiad â chyrff cyhoeddus.

Drwy wella trefniadau rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bobl, gan gynnwys ymwelwyr a phreswylwyr, yn yr adeilad ac o gwmpas yr adeilad. Ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd arfaethedig y bydd yr effaith fwyaf. Bwriedir i'r diwygiadau wella diogelwch i bob preswylydd ac, felly, breswylwyr ag unrhyw nodweddion gwarchodedig. Y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau fydd yn cael y budd mwyaf. Fodd bynnag, bydd costau i breswylwyr a'r rhai sydd yn y sefyllfa waethaf i dalu fydd yn teimlo effaith fwyaf y costau hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd effeithiau hefyd ar ddeiliaid dyletswydd o dan y gyfundrefn.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi ein diwygiadau ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar bapur gwyn[1] ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys lesddeiliaid a thenantiaid, grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig penodol, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub a'r diwydiant tai.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil hefyd, gan gynnwys:

- ymchwil heb ei chyhoeddi â lesddeiliaid ethnig leiafrifol a lesddeiliaid anabl[2];
- ymchwil ymhlith preswylwyr o bob math ac o bob grŵp deiliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau y diffiniwyd eu bod o fewn cwmpas y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd[3];

---

[1] Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[2] Er mai darn bach o waith oedd hwn (12 cyfranogwr), caiff y canfyddiadau eu hadlewyrchu hefyd yng nghasgliadau'r gwaith ymchwil preswylwyr, a gynhaliwyd gan IFF

[3] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

- adolygiad o dystiolaeth ar ddylanwadau dynol mewn tanau cartref, ac mewn adeiladau amlfeddiannaeth yn benodol[4].

Caiff canlyniadau'r ymchwil hon, data ar aelwydydd yng Nghymru a chanfyddiadau o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid eu trafod isod.

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 1 yn dangos o blith yr 1,347,100 o aelwydydd yng Nghymru, bod 168,400 (13%) ohonynt yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai.

**Tabl 1: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl y math o annedd, 2021 [Nodyn 1]**

| | Carafán neu fath arall o strwythur symudol neu dros dro | Fflat, fflat deulawr neu randy | Tŷ neu fyngalo cyfan: Ar wahân | Tŷ neu fyngalo cyfan: Tŷ pâr | Tŷ neu fyngalo cyfan: Mewn teras | **Pob annedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob aelwyd** | 4,400 | 168,400 | 384,400 | 431,900 | 358,000 | **1,347,100** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 2 yn dangos bod llawer llai o aelwydydd yn byw mewn tai amlfeddiannaeth[5], 7100 (0.5%). Mae Tabl 2 hefyd yn dangos bod y mwyafrif (65%) o dai amlfeddiannaeth mewn teras.

**Tabl 2: Tai amlfeddiannaeth yn ôl maint a'r math o lety, 2021**

| | **Tai amlfeddiannaeth bach** | | **Tai amlfeddiannaeth mawr** | | **Pob tŷ amlfeddiannaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ar wahân | 285 | 6% | 100 | 4% | 385 | 5% |
| Tŷ pâr | 496 | 11% | 292 | 11% | 788 | 11% |

[4] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[5] Mae annedd lle mae tenantiaid nad ydynt yn perthyn yn rhentu eu cartref wrth landlord preifat yn dŷ amlfeddiannaeth, os bydd y ddau bwynt canlynol yn gymwys: (i) mae o leiaf dri unigolyn nad ydynt yn perthyn yn byw yno, gan ffurfio mwy nag un aelwyd a (ii) mae cyfleusterau toiled, ystafell ymolchi neu gegin yn cael eu rhannu â thenantiaid eraill.. Caiff tŷ amlfeddiannaeth bach ei rannu gan 3 neu 4 o denantiaid nad ydynt yn perthyn. Caiff tŷ amlfeddiannaeth mawr ei rannu gan 5 neu fwy o denantiaid nad ydynt yn perthyn. Mae'r diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth a ddefnyddir ar gyfer y Cyfrifiad yn wahanol i ddiffiniad y Ddeddf Tai a ddefnyddir ar gyfer ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru ar dai amlfeddiannaeth.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mewn teras (gan gynnwys diwedd teras) | 2,702 | 61% | 1,956 | 72% | 4,658 | 65% |
| Rhan o dŷ a droswyd neu dŷ a rennir (gan gynnwys fflatiau un ystafell) | 473 | 11% | 240 | 9% | 713 | 10% |
| Mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol | 307 | 7% | 75 | 3% | 382 | 5% |
| Rhan o adeilad arall a droswyd (e.e. hen ysgol, eglwys neu warws) | 24 | 1% | 13 | 0% | 37 | 1% |
| Mewn adeilad masnachol (e.e. mewn adeilad swyddfeydd, gwesty neu uwchben siop) | 128 | 3% | 26 | 1% | 154 | 2% |
| **Cyfanswm** | **4,415** | **100%** | **2,702** | **100%** | **7,117** | **100%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Mae cyfansoddiad aelwydydd yr ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 3, yn brocsi da ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol. Mae'r data yn dangos bod cyfran fawr o breswylwyr yn byw ar eu pen eu hunain ac mai nifer cymharol fach o aelwydydd sy'n cynnwys plant.

**Tabl 3: Cyfansoddiad aelwydydd adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Cyfansoddiad aelwydydd | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Byw gyda phartner/priod | 31 |
| Byw gyda phlentyn/plant dan 16 oed | 9 |
| Byw gyda phlentyn/plant dros 16 oed | 2 |
| Byw gydag aelod arall/aelodau eraill o'r teulu | 2 |
| Byw gyda ffrind(iau) / rhannu fflat â rhywun | 4 |
| Rwy'n byw ar fy mhen fy hun | 55 |

Sail: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

### Oedran

Mae Cyfrifiad 2021 yn cynnwys data am gyfansoddiad aelwydydd ar gyfer mathau gwahanol o dai. Mae Tabl 4 yn dangos y canlynol:

- Mae cyfran yr aelwydydd â phlant sy'n byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai lai na hanner y ffigur ar gyfer pob annedd. Mae 18,500 o aelwydydd (11%) sy'n byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn cynnwys plant o gymharu â 321,500 o aelwydydd (24%) â phlant ym mhob annedd.
- Mae aelwydydd â phlant a 2 oedolyn neu fwy yn llai cyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (5%) nag ym mhob annedd (18%). Fodd bynnag, nid yw'r un peth yn wir o ran aelwydydd un rhiant sydd yr un mor gyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (6%) ag y maent ym mhob annedd (6%).
- Mae aelwydydd â 2 oedolyn a 3 phlentyn neu fwy yn anghyffredin ym mhob annedd (2%) ond mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn arbennig. Dim ond 3% o'r holl aelwydydd o'r math hwn oedd yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai.
- Mae tua chwarter yr aelwydydd yn cynnwys pobl sy'n 66 oed neu drosodd mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (24%) ac ym mhob annedd (25%).
- Mae cyfran yr aelwydydd lle mae'r unig breswylydd yn 66 oed neu drosodd yn uwch mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (20%) nag ym mhob annedd (15%).
- Mae bron hanner (45%) yr holl aelwydydd mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn aelwydydd un person sy'n 65 oed neu'n iau o gymharu â 17% o aelwydydd tebyg ym mhob annedd.
- Wrth ystyried aelwydydd sydd ag un neu ddau oedolyn sy'n 65 oed neu'n iau, mae'r canrannau yn cynyddu i 61% mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai a 35% ym mhob annedd.

**Tabl 4: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl niferoedd yr oedolion a phlant sy'n byw yn yr aelwyd a'r math o annedd, 2021 [Nodyn 1]**

| | Fflat, fflat deulawr neu randy | Pob annedd |
|---|---|---|
| Dim oedolion, neu un oedolyn ac un plentyn neu fwy | 9,800 | **74,400** |
| Aelwyd un person: Un oedolyn sy'n 66 oed neu drosodd | 33,700 | **196,100** |
| Aelwyd un person: Un person sy'n 65 oed neu'n iau | 76,100 | **233,500** |
| Tri oedolyn neu fwy: Dim plant | 4,800 | **161,400** |
| Tri oedolyn neu fwy: Un plentyn neu fwy | 1,000 | **61,500** |
| Dau oedolyn: Y ddau oedolyn yn 65 oed neu'n iau: Dim plant | 25,800 | **231,700** |
| Dau oedolyn: Y ddau oedolyn yn 66 oed neu drosodd: Dim plant | 6,000 | **138,800** |
| Dau oedolyn: Un oedolyn yn 65 oed neu'n iau ac un oedolyn yn 66 oed neu drosodd: Dim plant | 3,600 | **64,200** |
| Dau oedolyn: Un neu ddau o blant | 6,900 | **158,200** |
| Dau oedolyn: Tri phlentyn neu fwy | 800 | **27,400** |
| **Pob aelwyd** | **168,400** | **1,347,100** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 hefyd yn cynnwys data am gyfansoddiad aelwydydd ar gyfer tai/byngalos a fflatiau. Fel gyda data Cyfrifiad 2021, mae Tabl 5 yn dangos mai'r mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yw aelwydydd un oedolyn, aelwydydd un pensiynwr, a chyplau sy'n oedolion heb blant.

**Tabl 5. Math o aelwyd yn ôl y math o annedd, 2017-18**

| Math o aelwyd | Tŷ neu fyngalo (%) | Fflat (%) |
|---|---|---|
| Cwpl sy'n bensiynwyr - cwpl lle mae un neu fwy o'r oedolion o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd | 17 | - |
| Un pensiynwr - un oedolyn sydd o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd | 17 | 27 |
| Cwpl â phlant - cwpl nad ydynt yn bensiynwyr sydd â phlant dibynnol | 15 | - |
| Cwpl heb blant - cwpl nad ydynt yn bensiynwyr heb blant dibynnol | 11 | 7 |
| Un oedolyn â phlant - un oedolyn nad yw'n bensiynwr sydd â phlant dibynnol | 7 | - |
| Un oedolyn heb blant - un oedolyn nad yw'n bensiynwr heb blant dibynnol | 10 | 37 |
| Tri oedolyn neu fwy â phlant - tri oedolyn neu fwy â phlant dibynnol | 5 | - |
| Tri oedolyn neu fwy heb blant - yn perthyn – tri oedolyn neu fwy heb blant dibynnol, sy'n perthyn i'w gilydd | 7 | - |
| Tri oedolyn neu fwy heb blant - ddim yn perthyn – tri oedolyn neu fwy heb blant dibynnol, nad ydynt yn perthyn i'w gilydd | 4 | - |
| Aelwydydd eraill | 5 | - |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Mae ‘-’ yn golygu y cafwyd llai na 30 o ymatebion.

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

Mae oedran ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 6, yn brocsi da ar gyfer oedran preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol.

**Tabl 6: Oedran oedolion sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Oedran | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| 18-24 | 11 |
| 25-34 | 25 |
| 35-44 | 15 |
| 45-54 | 12 |
| 55-64 | 14 |
| 65-75 | 12 |
| 75+ | 9 |

Sail: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 7 yn dangos bod mwyafrif mawr (95%) o dai amlfeddiannaeth wedi'u meddiannu gan dri oedolyn neu fwy heb blant. Mae aelwydydd un person yn brin (3%) ac mae aelwydydd â phlant yn fwy prin byth (1%).

**Tabl 7: Tai amlfeddiannaeth yn ôl maint a'r math o aelwyd, 2021**

| | **Tai amlfeddiannaeth bach** | | **Tai amlfeddiannaeth mawr** | | **Pob tŷ amlfeddiannaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Aelwyd un person: Un oedolyn 65 oed neu'n iau | 76 | 2% | 145 | 5% | 221 | 3% |
| Un plentyn neu fwy yn yr aelwyd | 82 | 2% | 17 | 1% | 99 | 1% |
| Tri oedolyn neu fwy: Dim plant | 4,246 | 96% | 2,516 | 93% | 6,762 | 95% |
| Arall | 11 | 0% | 24 | 1% | 35 | 0% |
| **Cyfanswm** | **4,415** | **100%** | **2,702** | **100%** | **7,117** | **100%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 8 yn dangos bod mwyafrif mawr (81%) o breswylwyr tai amlfeddiannaeth yn bobl ifanc (16-24 oed). Mae plant hyd at 15 oed yn brin (1%) yn ogystal â phobl dros 60 oed (1%).

**Tabl 8 Tai amlfeddiannaeth yn ôl eu maint a grŵp oedran y preswylwyr, 2021**

| | Tai amlfeddiannaeth bach | | Tai amlfeddiannaeth mawr | | Pob tŷ amlfeddiannaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| 0-15 | 154 | 1% | 35 | 0% | 189 | 1% |
| 16-20 | 3,606 | 23% | 5,978 | 38% | 9,584 | 30% |
| 21-24 | 8,052 | 51% | 7,877 | 50% | 15,929 | 51% |
| 25-30 | 1,859 | 12% | 675 | 4% | 2,534 | 8% |
| 31-35 | 742 | 5% | 317 | 2% | 1,059 | 3% |
| 36-40 | 380 | 2% | 182 | 1% | 562 | 2% |
| 41-45 | 248 | 2% | 129 | 1% | 377 | 1% |
| 46-50 | 224 | 1% | 96 | 1% | 320 | 1% |
| 51-55 | 200 | 1% | 99 | 1% | 299 | 1% |
| 56-60 | 172 | 1% | 76 | 0% | 248 | 1% |
| 60+ | 206 | 1% | 142 | 1% | 348 | 1% |
| **Cyfanswm** | 15,843 | 100% | 15,606 | 100% | 31,449 | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

## Pobl hŷn

### Cyffredinrwydd

Mae Tabl 4 yn dangos bod tua chwarter yr aelwydydd yn cynnwys pobl sy'n 66 oed neu drosodd mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (24%) ac ym mhob annedd (25%). Yn yr un modd, roedd Tabl 6 hefyd yn dangos bod pobl 65 oed a throsodd yn cyfrif am 21% o'r ymatebwyr i'r arolwg ymchwil preswylwyr. Gallwn dybio, felly, fod cyfran yr aelwydydd hŷn mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil yn nodweddiadol o gyfran yr aelwydydd hŷn ym mhob annedd.

Fodd bynnag, roedd Tabl 4 hefyd yn dangos bod cyfran yr aelwydydd lle mae'r unig breswylydd yn 66 oed neu drosodd yn uwch mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (20%) nag ym mhob annedd (15%). Roedd Tabl 5 yn dangos darlun tebyg yn yr ystyr bod aelwydydd un pensiynwr yn ffurfio cyfran uwch o breswylwyr fflatiau (27%) na phreswylwyr tai neu fyngalos (17%).

Felly, er bod cyfran yr aelwydydd hŷn yn debyg rhwng fflatiau, fflatiau deulawr neu randai a phob annedd, mae'n ymddangos bod preswylwyr hŷn mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn fwy tebygol o fyw ar eu pen eu hunain.

Nid yw'n ymddangos bod yr un peth yn wir am dai amlfeddiannaeth. Rydym wedi gweld mai anaml y mae pobl hŷn yn byw mewn tai amlfeddiannaeth a bod aelwydydd hŷn ag un person yn eithriadol o brin. Fodd bynnag, gan mai dim ond


cyfran fach o'r holl adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil sy'n dai amlfeddiannaeth, mae'n gywir dweud o hyd bod preswylwyr hŷn mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn fwy tebygol o fyw ar eu pen eu hunain.

## Risg

Canfu ein hadolygiad o dystiolaeth[6] fod pobl hŷn yn un o'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o danau cartref ac anafiadau yn sgil tanau cartref.

Mae Siart 1 yn dangos bod cyfran yr anafusion tân sy'n 65 oed a throsodd yn tueddu i fod yn uwch na chyfran y bobl 65 oed a throsodd yn y boblogaeth.

**Siart 1: Cyffredinrwydd cymharol anafusion tân ymhlith pobl hŷn yng Nghymru yn ôl blwyddyn**




Ffynhonnell: StatsCymru: Anafusion yn ôl oedran a blwyddyn ariannol ac Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

Gan fod pobl hŷn yn wynebu mwy o risg, drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, bydd y Bil yn anghymesur o fuddiol i breswylwyr hŷn.

## Nodweddion

Fel rhan o waith Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr[7], roedd yr ymchwilwyr wedi segmentu preswylwyr ar sail eu hagweddau a'u hymddygiad o ran diogelwch tân a'u nodweddion demograffig. Nododd IFF fod 28% o breswylwyr yn y categori ‘Hunanddibynnol’, gyda

---

[6] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[7] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

phreswylwyr 55 oed a throsodd yn cyfrif am 49% o'r grŵp hwn. Mae preswylwyr ‘hunanddibynnol’ yn tueddu i arddangos y nodweddion canlynol:

- Yn fwy tebygol o ymgysylltu â gwybodaeth a hyfforddiant ym maes diogelwch tân
- Yn llai tebygol o ymddwyn mewn ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân yn y cartref neu yn ardaloedd cymunol eu hadeilad
- Yn llai tebygol o bryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu adeilad
- Yn teimlo bod ganddynt gyfrifoldeb am ddiogelwch tân yn eu cartref
- Yn fwy hyderus y byddent yn gallu cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe byddai tân
- Yn fwy tebygol o godi pryderon am ddiogelwch tân

Cost

Mae lefelau tlodi ymhlith oedolion o oedran gweithio ar eu huchaf ar ddechrau a thuag at ddiwedd eu bywyd gwaith, gydag oddeutu un o bob pedwar oedolyn o oedran gweithio sy'n 60 oed neu drosodd (25%) mewn tlodi o gymharu â'r gyfradd dlodi gyfartalog yng Nghymru a'r DU, sef 22%[8].

Mae'r risg o dlodi i bensiynwyr yn gymharol isel, gydag oddeutu un o bob 6 pensiynwr (17%) yn byw mewn tlodi[9]. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau yn wynebu risg benodol[10], fel a ganlyn:

- Mae 35% o denantiaid preifat a 34% o denantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol yn byw mewn tlodi o gymaru â 12% o bobl hŷn sy'n berchen ar eu cartref yn gyfan gwbl;
- mae 25% o bensiynwyr Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a 26% o bensiynwyr Du/Du Prydeinig mewn tlodi o gymharu â 16% o bensiynwyr Gwyn;
- mae 23% o fenywod hŷn sengl yn byw mewn tlodi o gymharu ag 20% o ddynion hŷn sengl a 13% o gyplau sy'n bensiynwyr.

Felly, er nad yw pobl hŷn yn gyffredinol yn wynebu risg arbennig o uchel o dlodi, gallai cost y gyfundrefn newydd effeithio ar rai pobl hŷn yn fwy sylweddol na'r boblogaeth gyfan. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Pobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi, yn breifat neu drwy'r sector cymdeithasol.
- Pobl Ddu ac Asiaidd hŷn.
- Menywod sengl hŷn.

---

[8] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[9] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[10] Age UK Poverty and financial disadvantage in later life, Mai 2024 poverty-and-financial-disadvantage-in-later-life-briefing-2024.pdf

Ymgysylltu

Cododd rhanddeiliaid, gan gynnwys lesddeiliaid hŷn, y materion canlynol drwy ddigwyddiadau ymgynghori amrywiol:

- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae angen ystyried hyn wrth gynllunio strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu
- Mae galwadau ffôn yn ffordd bwysig o gyfathrebu o hyd i lawer o bobl hŷn.
- Gall storio sgwteri symudedd yn ddiogel fod yn her i bobl hŷn.
- Gall pobl hŷn brofi dirywiad corfforol a meddyliol wrth iddynt heneiddio sy'n golygu bod eu tai yn anaddas i'w hanghenion ac yn golygu eu bod yn agored i niwed mewn argyfyngau.
- Mae rhai preswylwyr hŷn, sydd wedi byw mewn tai a byngalos am y rhan fwyaf o'u hoes o bosibl, yn amharod i gydymffurfio â rheolau y bwriedir iddynt gadw adeiladau'n ddiogel. Gallai fod angen ymgysylltu mwy â phobl hŷn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio Mae enghreifftiau yn cynnwys:
    - tynnu dyfeisiau hunan-gau oddi ar ddrysau
    - cadw drysau ar agor yn ystod tywydd cynnes
    - defnyddio croglofftydd, a ddylai gael eu cadw'n wag, i storio pethau
    - methiant i gydymffurfio â pholisïau “aros yn yr unfan”

Drwy osod dyletswyddau ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr, ymgysylltu â phreswylwyr a rhoi prosesau cwyno ar waith, bydd y Bil yn helpu preswylwyr hŷn i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel. Caiff anghenion preswylwyr eu hystyried wrth ddatblygu prosesau cyfathrebu, ymgysylltu a chwyno.

**Pobl Ifanc**

Cyffredinrwydd

Mae oedran ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 5, yn dangos bod 11% o'r ymatebwyr yn 18-24 oed. Mae hyn yn debyg i'r ganran o bobl 17-24 oed yn y boblogaeth (11%)[11].

Nid yw'r un peth yn wir am dai amlfeddiannaeth. Mae Tabl 8 yn dangos bod pobl ifanc yn cyfrif am fwyafrif mawr o breswylwyr tai amlfeddiannaeth.


Risg

Mae Siart 2 yn dangos bod cyfran yr anafusion tân sy'n 17-24 oed yn is na chyfran y bobl 17-24 oed yn y boblogaeth. Gan nad yw pobl ifanc yn wynebu mwy

[11] Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

o risg, ni fydd gwneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel o fudd anghymesur i breswylwyr ifanc.

**Siart 2: Cyffredinrwydd cymharol anafusion tân ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn ôl blwyddyn**




Ffynhonnell: StatsCymru: Anafusion yn ôl oedran a blwyddyn ariannol ac Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

Cost

Mae lefelau tlodi ymhlith oedolion o oedran gweithio ar eu huchaf ar ddechrau a thuag at ddiwedd eu bywyd gwaith. Mae tua un o bob pedwar person 16–24 oed (24%) mewn tlodi o gymharu â'r gyfradd dlodi gyfartalog yng Nghymru a'r DU, sef 22%[12]. Felly, gallai cost y gyfundrefn newydd effeithio ar gyfran ychydig yn fwy o bobl ifanc na'r gyfran o'r boblogaeth gyfan.

Ymgysylltu

Nododd rhanddeiliaid ei bod yn bwysig ystyried y ffordd orau o ymgysylltu a chyfathrebu â phreswylwyr ifanc. Er enghraifft, daeth gweithdy a gynhaliwyd yn ystod Cynhadledd Inside Housing 2022 i'r casgliad ei bod yn bwysig teilwra dulliau ymgysylltu gyda chyfarfodydd, digwyddiadau ac ymgyngoriadau ar-lein hyblyg a gaiff eu targedu at bobl ifanc. Trafododd cyfranogwyr yng Nghynhadledd Flynyddol TPAS Cymru yn 2021 bwysigrwydd teilwra dulliau cyfathrebu i bobl ifanc, er enghraifft, defnyddio WhatsApp a Snapchat.

Drwy osod dyletswyddau ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr sy'n oedolion, ymgysylltu â phreswylwyr sy'n oedolion a rhoi prosesau cwyno ar waith, bydd y Bil yn helpu preswylwyr sy'n oedolion ifanc i fod yn fwy diogel a theimlo'n

[12] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

fwy diogel. Bydd disgwyl i bersonau atebol ystyried anghenion preswylwyr wrth weithredu prosesau cyfathrebu, ymgysylltu a chwyno. Fodd bynnag, gan na all pobl o dan 18 oed fod yn berchen ar eiddo na rhentu eiddo, nid yw'r dyletswyddau ar bersonau atebol o safbwynt ymgysylltu yn ymestyn i breswylwyr sy'n 16 a 17 oed. Byddai pobl ifanc sy'n 16 a 17 oed yn gorfod dibynnu ar rieni neu warcheidwaid i drosglwyddo gwybodaeth gan bersonau atebol ac felly efallai na fyddant yn cael budd.

**Plant**

Cyffredinrwydd

Mae Tabl 4 yn dangos bod aelwydydd â phlant yn llawer llai tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd arall. Mae aelwydydd â 3 phlentyn neu fwy yn arbennig o anghyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai. Fodd bynnag, mae aelwydydd un rhiant yr un mor gyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (6%) ag y maent ym mhob annedd (6%).

Mae Tabl 7 yn dangos bod aelwydydd â phlant hyd yn oed yn llai cyffredin mewn tai amlfeddiannaeth (1%).

Risg

Canfu ein hadolygiad o dystiolaeth[13] y canlynol:


- Mae plant ifanc yn aml yn wynebu mwy o risg o anaf mewn tân gan nad oes ganddynt y profiad i adnabod y risg a berir gan dân ac yn aml ni fydd larymau mwg yn llwyddo i'w deffro.
- Mae plant yn llai tebygol o allu gadael adeilad heb gymorth pe bai tân.
- Mae risg gynyddol y bydd plant smygwyr yn fwy tebygol o gael gafael ar danwyr sigaréts a matsis yn y tŷ mewn ffordd anniogel.
- Mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o ymarfer cynllun dianc rhag tân.

Fodd bynnag, mae awgrymiadau bod plant yn wynebu mwy o risg yn mynd yn groes i'r data ar anafiadau o ganlyniad i dân ar gyfer Cymru. Mae Siart 3 yn dangos bod cyfran yr anafusion tân sy'n blant yn llawer is na chyfran y plant yn y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu er y gallai plant ifanc iawn wynebu risg uwch, ni cheir effaith anghymesur ar blant yn gyffredinol o gymharu â'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth. Prin iawn y bydd “chwarae â thân” (fel y caiff ei gofnodi) yn achosi tân ac roedd hyn ond yn gyfrifol am 8 achos yn unig o 1500 o danau mewn anheddau yn 2023/24, ac nid o reidrwydd y rhai a ddechreuwyd gan blant yn chwarae â matsis neu danwyr[14].

[13] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[14] Ystadegau achosion tân ac achub: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

**Siart 3: Cyffredinrwydd cymharol anafusion tân ymhlith plant yng Nghymru yn ôl blwyddyn**




Ffynhonnell: StatsCymru: Anafusion yn ôl oedran a blwyddyn ariannol ac Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

Un eithriad posibl yw plant sy'n byw mewn aelwydydd un rhiant. Roedd y rhai sy'n byw mewn aelwydydd un rhiant yn un o'r grwpiau y nododd y Swyddfa Gartref eu bod yn wynebu mwy o risg o farw mewn tân[15].

Gan fod aelwydydd un rhiant yn wynebu mwy o risg, drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, bydd y Bil yn anghymesur o fuddiol i aelwydydd un rhiant.

Cost

Mae cyfraddau tlodi yn amrywio i wahanol fathau o deuluoedd. Mae aelwydydd â phlant yn tueddu i gael cyfraddau tlodi uwch oherwydd bod mwy o bobl yn yr aelwyd o gymharu â'i hincwm bosibl[16]. Yn y DU, mae 12% o gyplau heb blant yn byw mewn tlodi o gymharu â 23% o gyplau â phlant a 42% o aelwydydd un rhiant[17]. Mae gan deuluoedd â thri phlentyn neu fwy gyfradd dlodi uwch (roedd 43% o blant mewn teuluoedd mawr mewn tlodi yn y DU yn 2021/22)[18].

[15] Focus on Trends in Fires and Fire-related Fatalities, Swyddfa Gartref 2017 Focus on trends in fires and fire-related fatalities

[16] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[17] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[18] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

Mae plant sy'n byw mewn llety rhent preifat neu gymdeithasol, y rhai mewn aelwydydd heb waith, a phlant Du ac Asiaidd hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi[19].

Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar rai plant na'r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n byw mewn:

- Aelwydydd un rhiant
- Aelwydydd mawr
- Aelwydydd Du neu Asiaidd
- Cartrefi rhent

**Anabledd**

Cyffredinrwydd

Yng Nghymru, mae cyfran wedi'i safoni yn ôl oedran y bobl anabl yn cyfateb i oddeutu un o bob pump (21%) yng Nghyfrifiad 2021. Roedd hyn yn cynnwys 11% a atebodd fod eu cyflyrau neu salwch yn "cyfyngu ychydig" ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a 10% a atebodd eu bod yn "cyfyngu gryn dipyn" ar eu gweithgareddau.

Roedd cyfran uwch bobl anabl yn y grwpiau oedran hŷn. Ymhlith pobl 50 oed a throsodd, nododd 33% eu bod yn anabl, o gymharu â 13% o'r rhai o dan 50 oed (heb ei safoni yn ôl oedran).

Roedd pobl anabl hŷn hefyd yn fwy tebygol na phobl anabl iau o ddweud bod eu hanabledd yn cyfyngu cryn dipyn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Ymhlith pobl anabl 50 oed neu drosodd, nododd 50% fod eu cyflyrau neu salwch yn cyfyngu cryn dipyn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, o gymharu â 42% o bobl anabl o dan 50 oed (heb ei safoni yn ôl oedran).

Canfu Cyfrifiad 2021 fod tua 38% o aelwydydd yn cynnwys o leiaf un person anabl (heb ei safoni yn ôl oedran).

---

[19] Child poverty: trends and policy options, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Hydref 2024, Child poverty: trends and policy options | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Mae Tabl 9 yn dangos bod canran uwch o aelwydydd mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn cynnwys rhywun sy'n anabl (44%) o gymharu ag aelwydydd ym mhob annedd (38%).

**Tabl 9: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl nifer y bobl anabl a math o annedd, 2021**

| | Fflat, fflat deulawr neu randy | | Pob annedd | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 1 person anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn yr aelwyd | 66,237 | 39% | 396,885 | 29% |
| 2 berson anabl neu fwy o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn yr aelwyd | 7,545 | 4% | 113,721 | 8% |
| Dim pobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn yr aelwyd | 94,662 | 56% | 836,509 | 62% |
| **Pob aelwyd** | **168,444** | | **1,347,115** | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae statws anabledd ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 10, yn brocsi da ar gyfer statws anabledd preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol.

**Tabl 10: Statws anabledd oedolion sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Statws anabledd | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Anabledd, cyflwr neu salwch hirdymor | 33 |
| Dim anabledd | 60 |

Sail: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

Mae Tabl 11 yn dangos bod canran y bobl anabl sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth (22%) yn gymharol isel o gymharu â phobl heb anabledd (77%). Gallai hyn adlewyrchu'r gyfran uchel o breswylwyr ifanc.

**Tabl 11: Tai amlfeddiannaeth yn ôl maint a ph'un a yw preswylydd yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, 2021**

| | **Tai amlfeddiannaeth bach** | | **Tai amlfeddiannaeth mawr** | | **Pob tŷ amlfeddiannaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Anabl, cyfyngir gryn dipyn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd | 588 | 4% | 446 | 3% | 1,034 | 3% |
| Anabl, cyfyngir ychydig ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd | 1,798 | 11% | 1,532 | 10% | 3,330 | 11% |
| Anabl, ni chyfyngir ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd | 1,228 | 8% | 1,291 | 8% | 2,519 | 8% |
| Ddim yn Anabl | 12,013 | 76% | 12,202 | 78% | 24,215 | 77% |
| Dim gwybodaeth ar gael | 216 | 1% | 135 | 1% | 351 | 1% |
| **Cyfanswm** | 15,843 | 100% | 15,606 | 100% | 31,449 | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Risg

Nododd IFF[20] fod preswylwyr mewn cartrefi rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o nodi bod eu diffyg hyder yn eu gallu i adael eu hadeilad yn ddiogel pe bai tân yn deillio o’r ffaith bod gan aelod o'u haelwyd anabledd neu amhariadau symudedd oherwydd oedran.

Ymhlith preswylwyr anabl[21], dywedodd 59% nad oeddent yn hyderus y gallent adael yn ddiogel am fod aelod o'u haelwyd yn anabl neu am fod gan aelod o'u haelwyd amhariad symudedd o ganlyniad i henaint.

[20] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

[21] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

Drwy ein hadolygiad o dystiolaeth[22], canfuwyd tystiolaeth gadarn ynghylch dylanwad amhariadau corfforol a meddyliol a diogelwch tân. Dangosodd yr adroddiad fod pobl anabl yn wynebu mwy o risg o anaf o ganlyniad i dân a disgrifiodd yr anawsterau sy'n wynebu pobl anabl. Er enghraifft, gallai pobl anabl wynebu mwy o risg, yn enwedig o ran anaf neu farwolaeth pe bai tân, am ei bod yn bosibl y gallent gael anhawster ymateb i arwyddion rhybudd, larymau neu ddilyn gweithdrefnau i adael yr adeilad. Gallai amhariadau ar y golwg, y clyw neu'r lleferydd olygu na fyddant yn adnabod ciwiau diogelwch tân e.e. larwm dân, mwg, negeseuon gan bobl eraill, gan oedi eu hymdrechion i osgoi tân.

Gan fod rhai pobl anabl yn wynebu mwy o risg, drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, bydd y Bil yn anghymesur o fuddiol i'r bobl anabl hynny.

## Nodweddion

Wrth ystyried agweddau ac ymddygiadau preswylwyr o ran diogelwch tân a'u nodweddion demograffig, canfu IFF mai'r segment oedd yn cynnwys y nifer mwyaf arwyddocaol yn ystadegol o breswylwyr anabl, o gymharu â'r holl breswylwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (38% o gymharu â 33%, yn y drefn honno), oedd ‘Pryderus ond gydag amheuon’[23]. Roedd preswylwyr yn y segment hwn yn tueddu i arddangos y nodweddion canlynol:

- Yn fwy tebygol o bryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu adeilad
- Yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt gyfrifoldeb am ddiogelwch tân yn eu cartref
- Yn llai hyderus y byddent yn gallu cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe byddai tân
- Yn llai tebygol o godi pryderon am ddiogelwch tân
- Yn ymgysylltu llai â gwybodaeth a ddarparwyd am eu hadeilad
- Yn ymgysylltu llai â llythyrau neu hysbysiadau am eu hadeilad
- Yn fwy tebygol o ymddwyn mewn rhai ffyrdd peryglus yn y cartref o ran diogelwch tân

## Cost

Yn 2021/22, y gyfradd tlodi i bobl anabl oedd 31%, 12 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y rhai nad oeddent yn anabl[24]. Mae'r gwahaniaeth yn amlwg iawn o hyd ar gyfer oedolion o oedran gweithio; roedd oedolion anabl o oedran gweithio

[22] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[23] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

[24] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi o gymharu â'r rhai nad oeddent yn anabl (36% a 17% yn y drefn honno).

Mae'n debygol bod y gyfradd dlodi ar gyfer pobl anabl yn gyffredinol yn cuddio amrywiadau mawr mewn tlodi, sy'n rhannol gysylltiedig â'r math o amhariad sydd gan rywun[25]. Roedd gan bron hanner yr holl bobl a oedd yn anabl ac yn byw mewn tlodi amhariad meddyliol cyfyngus, hirdymor[26]. Y gyfradd dlodi ar gyfer y grŵp hwn oedd 38%, o gymharu â 31% ar gyfer pobl ag amhariad corfforol neu amhariad arall.

Roedd cyfraddau tlodi hefyd yn amrywio yn ôl pwy oedd yn anabl yn y teulu[27]. Roedd tlodi yn arbennig o uchel ymhlith teuluoedd lle roedd oedolion a phlant anabl (39%).

Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl anabl na'r boblogaeth gyfan. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o wynebu effaith negyddol os ydynt:

- Y rhai sy'n byw mewn aelwydydd ag oedolion a phlant anabl.
- Y rhai sydd ag amhariadau meddyliol hirdymor a chyfyngus.

Ymgysylltu

Wrth ddatblygu'r Bil, rydym wedi ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl ag amrywiaeth eang o amhariadau corfforol a meddyliol. Er eu bod yn cefnogi ein cynigion yn gyffredinol, pwysleisiodd y grwpiau hyn bwysigrwydd deunydd cyfathrebu hygyrch sy'n diwallu anghenion pobl ag amrywiaeth o amhariadau.

Canfu ymchwil heb ei chyhoeddi â lesddeiliaid ethnig leiafrifol a lesddeiliaid anabl y canlynol:

- Roedd cyfranogwyr yn tueddu i beidio â chael deunydd cyfathrebu am ddiogelwch tân a diogelwch adeiladau a oedd yn ddifyr, yn addysgiadol ac yn gofiadwy.
- Nid oedd fawr ddim i awgrymu bod cyfranogwyr yn cael deunydd cyfathrebu i roi sicrwydd iddynt am y mesurau roedd landlordiaid / asiantau rheoli wedi eu rhoi ar waith i ddiogelu preswylwyr, heblaw am hysbysiadau am waith i'w gynnal a goblygiadau o ran taliadau gwasanaeth.
- O ystyried y canfyddiad bod diffyg gohebiaeth reolaidd gan landlordiaid / asiantau rheoli ynghylch diogelwch tân a diogelwch adeiladau, nid oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ddiogelwch tân a diogelwch adeiladau. Nid oeddent ychwaith yn cofio

[25] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, 24 Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[26] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[27] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

eu bod wedi cael eu hannog yn rheolaidd i feddwl am ddiogelwch tân a chynllunio ar ei gyfer.

- Roedd hyn yn golygu nad oedd diogelwch tân a diogelwch adeiladau yn ystyriaeth flaenllaw i rai lesddeiliaid yn rheolaidd. Gallai amgylchiadau personol, fel ymdopi ag anabledd gwanychol, hefyd olygu bod gan lesddeiliad flaenoriaethau eraill yn ei fywyd i'w hystyried.
- Yn ogystal â dysgu am offer diogelwch tân, roedd rhai cyfranogwyr am wybod mwy am beth y dylent ei wneud pe byddai tân yn y cartref a chynghorion diogelwch, sut i adael yr adeilad yn ddiogel gan gynnwys os oeddent yn byw ar lawr uwchlaw'r tân, a pha fesurau a oedd wedi cael eu cymryd eisoes i ddiogelu preswylwyr a ddylai fod yn hawdd mynd atynt.

Er mai darn bach o waith oedd hwn (12 cyfranogwr), caiff y canfyddiadau hyn eu hadlewyrchu hefyd yng nghasgliadau'r gwaith ymchwil preswylwyr, a gynhaliwyd gan IFF.

Drwy osod dyletswyddau ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr, ymgysylltu â phreswylwyr a rhoi prosesau cwyno ar waith, bydd y Bil yn helpu preswylwyr anabl i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel. Bydd disgwyl i bersonau atebol ystyried anghenion preswylwyr wrth weithredu prosesau cyfathrebu, ymgysylltu a chwyno.

**Ailbennu Rhywedd**

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer pobl draws.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Cyffredinrwydd

Rydym wedi dangos uchod bod plant yn llawer llai tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd. Fodd bynnag, mae aelwydydd un rhiant yr un mor gyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (6%) ag y maent ym mhob annedd (6%).

Cost

Rydym hefyd wedi dangos bod cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar deuluoedd un rhiant na'r boblogaeth gyfan.

Menywod yw penaethiaid y rhan fwyaf o deuluoedd un rhiant a menywod sydd fel arfer yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau gofal plant, hyd yn oed mewn cyplau sydd â phlant [28].

**Hil**

Cyffredinrwydd

Mae Tabl 12 yn dangos y canlynol:

- Mae canran uwch o aelwydydd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (gan gynnwys aelwydydd sy'n cynnwys cyfuniadau o ddau grŵp ethnig neu fwy, a allai gynnwys Gwyn) yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (11%) nag ym mhob annedd (6%).
- Mae 12% o aelwydydd Gwyn, 25% o aelwydydd Asiaidd a 42% o aelwydydd Du yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai.

**Tabl 12: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl cyfuniad grŵp ethnig a'r math o annedd, 2021**

| | Fflat, fflat deulawr neu randy | | Pob annedd | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig yn unig yn yr aelwyd | 5,459 | 3% | 22,106 | 2% |
| Grwpiau ethnig Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd yn unig yn yr aelwyd | 3,147 | 2% | 7,444 | 1% |
| Cyfuniad o dri grŵp ethnig neu fwy yn yr aelwyd | 365 | 0% | 5,690 | 0% |
| Cyfuniad o ddau grŵp ethnig yn yr aelwyd | 4,764 | 3% | 33,199 | 2% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig yn unig yn yr aelwyd | 2,360 | 1% | 6,121 | 0% |
| Grwpiau ethnig eraill yn unig yn yr aelwyd | 2,743 | 2% | 6,488 | 0% |
| Grwpiau ethnig gwyn yn unig yn yr aelwyd | 149,606 | 89% | 1,266,068 | 94% |
| **Pob aelwyd** | **168,444** | | **1,347,116** | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[28] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

Mae ethnigrwydd ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 13, yn brocsi da ar gyfer ethnigrwydd preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol.

**Tabl 13: Ethnigrwydd oedolion sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Ethnigrwydd | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig, Gwyddelig, neu unrhyw gefndir Gwyn arall | 83 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 6 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig | 4 |
| Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 3 |
| Grŵp ethnig arall | 6 |

Sail: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

**Tabl 14. Tai amlfeddiannaeth yn ôl eu maint a grŵp ethnig y preswylwyr, 2021**

| | Tai amlfeddiannaeth bach | | Tai amlfeddiannaeth mawr | | Pob tŷ amlfeddiannaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,539 | 10% | 1,051 | 7% | 2,590 | 8% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 590 | 4% | 408 | 3% | 998 | 3% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig | 526 | 3% | 525 | 3% | 1,051 | 3% |
| Gwyn | 12,657 | 80% | 13,273 | 85% | 25,930 | 82% |
| Grŵp ethnig arall | 315 | 2% | 214 | 1% | 529 | 2% |
| Ar goll | 216 | 1% | 135 | 1% | 351 | 1% |
| **Cyfanswm** | 15,843 | 100% | 15,606 | 100% | 31,449 | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Mae Tabl 14 yn dangos bod canran uwch o breswylwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (gan gynnwys aelwydydd sy'n cynnwys cyfuniadau o ddau grŵp ethnig

neu fwy, a allai gynnwys Gwyn) yn byw mewn tai amlfeddiannaeth (16%) na phoblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd (5%)[29].

## Risg

O'r data sydd ar gael sy'n benodol i'r DU, canfu ein hadolygiad o dystiolaeth[30] fod bylchau sylweddol yn y dystiolaeth sy'n ymwneud ag unigolion o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol neu statws cymdeithasol-economaidd/demograffig-gymdeithasol unigolyn. Er bod amrywiad clir yn y graddau y mae gorlenwi yn effeithio ar grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod tai gorlawn yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau ethnig leiafrifol yn y DU, ar draws pob deiliadaeth dai, a bod anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o effeithio arnynt yn anghymesur.

Felly, gallai grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wynebu mwy o risg o ddigwyddiadau diogelwch adeiladau o ganlyniad i dai gwael. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr effaith y mae hil yn ei chael ar y risg o dân yn brocsi ar gyfer amddifadedd neu dai o ansawdd gwael.

Nododd y Swyddfa Gartref y gall anheddau gorlawn arwain at risg o dân a bod pobl sy'n byw mewn aelwydydd â phump aelod neu fwy yn fwy tebygol o brofi tân na'r rhai mewn aelwydydd llai[31].

Yn eu hadroddiad ar brofiadau pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol o dai yng Nghymru[32], canfu Tai Pawb a Thîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST) dystiolaeth o orlenwi hefyd. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â thai yn gyffredinol yn hytrach na'r adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil. Rydym wedi gweld bod aelwydydd mwy yn anghyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai, Tabl 4.

## Nodweddion

Wrth ystyried agweddau ac ymddygiadau preswylwyr o ran diogelwch tân a'u nodweddion demograffig, canfu IFF mai'r segment oedd yn cynnwys y nifer mwyaf arwyddocaol yn ystadegol o breswylwyr o gefndir ethnig leiafrifol (36% o'r segment o gymharu â 19% o'r holl breswylwyr), oedd 'Bodlon ac ymddiriedus'[33]. Roedd preswylwyr yn y segment hwn yn tueddu i arddangos y nodweddion canlynol:

---

[29] StatsCymru Ethnigrwydd yn ôl blwyddyn a grŵp ethnig

[30] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[31] Focus on Trends in Fires and Fire-related fatalities, Swyddfa Gartref 2017 Focus on trends in fires and fire-related fatalities

[32] Adroddiad: Profiadau pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig o dai yng Nghymru - Tai Pawb

[33] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

- Yn fwy hyderus y byddent yn gallu cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe byddai tân
- Yn llai tebygol o bryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu adeilad
- Yn fwy tebygol o ymgysylltu â gwybodaeth am eu hadeilad
- Yn llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus yn y cartref o ran diogelwch tân ac eithrio coginio gan ddefnyddio sosban sglodion
- Yn llai tebygol o gadw drysau tân ar gau mewn ardaloedd cymunol o'r adeilad

Cost

Mae cyfraddau tlodi yn uchel iawn ar gyfer rhai grwpiau ethnig leiafrifol[34]. Yn benodol, rhwng 2019/20 a 2021/22, roedd tua hanner y bobl mewn aelwydydd Pacistanaidd (51%) a Bangladeshaidd (53%) yn byw mewn tlodi, gyda lefelau tlodi hyd yn oed uwch ar gyfer plant yn yr aelwydydd hynny (61% a 62% yn y drefn honno). Roedd tua phedwar o bob deg person mewn aelwydydd â phenteulu o gefndir Asiaidd heblaw am Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd neu Tsieineaidd (39%) neu aelwydydd o gefndiroedd Du Affricanaidd (42%) mewn tlodi, ac roedd oddeutu hanner y plant yn yr aelwydydd hyn mewn tlodi. Roedd yr holl grwpiau hyn yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd Gwyn (19%) (roedd 25% o blant mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd Gwyn mewn tlodi).

I fudwyr, gall natur mudo fod yn ffactor andwyol ychwanegol[35]: er enghraifft, p'un a oedd mudo drwy ddulliau sy'n gwneud cyflogaeth yn anos, megis ceisio lloches, a pha mor ddiweddar y cyrhaeddodd pobl y DU.

Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol na'r boblogaeth gyfan.

Ymgysylltu

Mater arall a nodwyd gan Tai Pawb, ymatebion i'n papur gwyn, gwaith ymchwil heb ei gyhoeddi gyda lesddeiliaid ethnig leiafrifol, a'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd cyfathrebu ac ymgysylltu gwael rhwng landlordiaid, lesddeiliaid a thenantiaid.

Roedd hiliaeth yn fater arall a nodwyd yn adroddiad Tai Pawb. Cyfeiriodd cyfranogwyr at achosion o hiliaeth gan eu landlordiaid yn uniongyrchol a thrwy asiantau/asiantaethau gosod. Dywedodd y tenantiaid hyn eu bod wedi wynebu agweddau nawddoglyd ac agwedd 'derbyniwch hyn neu gadewch yr eiddo' pan roeddent wedi mynegi pryderon am agweddau amrywiol ar yr eiddo. Gwelwyd triniaeth anghyfartal o ran gwaith cynnal a chadw ar eiddo rhent. Teimlwyd bod cymdogion Gwyn a ddefnyddiodd yr un asiantaeth wedi cael sylw prydlon mewn perthynas â gwaith atgyweirio tra bod tenantiaid ethnig leiafrifol â phroblemau

---

[34] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[35] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

tebyg wedi cael eu hanwybyddu, gan ddwysáu anghyfartaledd yn y ffordd roeddent yn cael eu trin.

Roedd ymatebwyr i arolwg Tai Pawb wedi sgorio cyflwr eu heiddo fel a ganlyn:

- 48% - yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- 48% - angen gwneud gwaith atgyweirio
- 4% - yn anniogel

Mynegodd cyfranogwyr yn yr arolwg rwystredigaeth ynghylch diffyg cydymdeimlad neu gymorth i denantiaid, gan nodi eu bod yn teimlo mai safbwyntiau'r landlordiaid oedd yn cael y sylw a'r ddealltwriaeth bennaf. Roedd y profiadau hyn yn tanlinellu'r angen am driniaeth fwy tosturiol a chyfartal, gan gydnabod yr effeithiau y mae'r heriau tai hyn yn eu cael ar iechyd meddwl a mynd i'r afael â'r effeithiau hynny.

Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at ddiffyg ymwybyddiaeth o hawliau tenantiaid. Mae Sefydliad Bevan hefyd wedi nodi y gall gwybodaeth mudwyr am eu hawliau fod yn brin[36].

Mae cyfranogwyr yn yr arolwg yn awgrymu'r ffyrdd canlynol o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd ganddynt, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran tai:

- Cymorth a gwasanaethau cyfeirio gwell
- Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith tenantiaid o gynnal a chadw a'r broses gwyno
- Gwiriadau o ddogfennau a phroses gwneud cais i fudwyr
- Cynyddu'r cyflenwad o dai/rhenti mwy fforddiadwy
- Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Drwy osod dyletswyddau ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr, ymgysylltu â phreswylwyr a rhoi proses gwyno dau gam ar waith, bydd y Bil yn helpu preswylwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel. Bydd disgwyl i bersonau atebol ystyried anghenion preswylwyr wrth weithredu prosesau cyfathrebu, ymgysylltu a chwyno. Bydd y broses gwyno dau gam yn galluogi preswylwyr i gwyno i'r awdurdod diogelwch adeiladau os na fydd y person atebol yn cymryd camau priodol i ddatrys cwyn neu os bydd y preswylydd yn ofni'r canlyniadau os bydd yn cwyno i'r person priodol.

## Crefydd a chred a diffyg cred

[36] Shared-Ground-report.pdf Shared Ground: Integrating Migrants in Wales, Sefydliad Bevan Foundation

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol o ganlyniad i grefydd, cred neu ddiffyg cred.

### Rhyw / Rhywedd

Cyffredinrwydd

Mae rhywedd ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 15, yn brocsi da ar gyfer rhywedd preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol.

**Tabl 15: Rhyw/rhywedd oedolion sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Rhywedd | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Benyw | 46 |
| Gwryw | 49 |
| Yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth | 1 |

Sail: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

Cost

Yn y DU, nid yw'n wir ym mhob achos bod pob menyw yn waeth ei byd na dynion. Fodd bynnag, o ystyried bod rhywedd yn parhau i fod yn berthnasol i gyfranogiad mewn gwaith â thâl a gwaith di-dâl, a chyfrifoldebau gofalu, ar hyd bywyd, mae rhywedd yn bwysig er mwyn deall tlodi[37]. Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar fenywod na'r boblogaeth gyfan.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol o ganlyniad i gyfeiriadedd rhywiol.

### Priodas a phartneriaeth sifil

[37] Which men and women are poor? Gender, poverty and social exclusion (Four) - Poverty and Social Exclusion in the UK, Cyfrol 1

Cyffredinrwydd

Mae Tabl 4 yn dangos bod aelwydydd un person yn llawer mwy cyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai (65% o aelwydydd) nag ym mhob annedd arall (31% o aelwydydd). Felly, mae'r gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl sengl na'r boblogaeth gyfan.

Cost

Gall costau tai i gwpl fod yn debyg i gostau tai i bobl sengl, ond gall eu hincwm fod ddwywaith yn fwy[38]. Felly, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl sengl na'r boblogaeth gyfan.

**Aelwydydd incwm isel**

Cyffredinrwydd

Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos, o'r aelwydydd hynny sy'n byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai, fod 23% (39,348) ohonynt yn wynebu amddifadedd cyflogaeth, o gymharu â 15% (185,416) o'r holl aelwydydd yng Nghymru[39].

Mae data o Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 yn dangos bod 37% o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yn profi amddifadedd materol o gymharu â 17% o aelwydydd sy'n byw mewn tai/byngalos[40].

---

[38] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[39] Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[40] Arolwg Cyflwr Tai Cymru Arolwg Cyflwr Tai Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

Mae Tabl 16 yn dangos bod diweithdra yn isel ymhlith pobl sy'n byw mewn fflatiau ond bod anweithgarwch economaidd yn gymharol uchel o gymharu â phobl sy'n byw mewn tai/byngalos.

**Tabl 16: Statws cyflogaeth person cyswllt y cartref yn ôl y math o annedd, 2017-18**

| Math o annedd | Mewn cyflogaeth (%) | Yn ddi-waith (%) | Yn economaidd anweithgar |
|---|---|---|---|
| Tŷ neu fyngalo | 49 | 2 | 49 |
| Fflat | 34 | - | 61 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

Mae Tabl 17 yn dangos bod canran yr aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau lle nad oes unrhyw aelod yn gweithio yn uchel (33%) o gymharu ag aelwydydd sy'n byw mewn tai/byngalos (13%).

**Tabl 17: Aelodau o aelwyd sy'n gweithio yn ôl math o annedd, 2017-18**

| Math o annedd | Pawb yn gweithio (%) | Rhai yn gweithio (%) | Neb yn gweithio (%) | Neb rhwng 16 a 19 oed (ddim mewn addysg amser llawn) na rhwng 19 a 64 oed yn yr aelwyd (%) |
|---|---|---|---|---|
| Tŷ neu fyngalo | 36 | 20 | 13 | 31 |
| Fflat | 29 | - | 33 | 32 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

Mae statws cyflogaeth ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 18, yn brocsi da ar gyfer statws cyflogaeth preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol.

**Tabl 18: Statws cyflogaeth oedolion sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Statws cyflogaeth | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Gwaith amser llawn am dâl (35 awr yr wythnos neu fwy) | 39 |
| Gwaith rhan-amser am dâl | 10 |
| Di-waith ac yn chwilio am waith | 4 |
| Di-waith a heb fod yn chwilio am waith | 1 |
| Methu gweithio (oherwydd iechyd neu anabledd) | 14 |
| Gofalwr neu gydlynydd y cartref | 2 |
| Myfyriwr amser llawn | 5 |
| Wedi ymddeol | 20 |

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

**Tabl 19: Tai amlfeddiannaeth yn ôl eu maint a gweithgarwch economaidd y preswylwyr rhwng 15 a 21 Mawrth 2021**

| | Tai amlfeddiannaeth bach | | Tai amlfeddiannaeth mawr | | Pob tŷ amlfeddiannaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Economaidd anweithgar - anabledd neu salwch hirdymor | 391 | 2% | 266 | 2% | 657 | 2% |
| Economaidd anweithgar - gofalu am y cartref/teulu | 48 | 0% | 15 | 0% | 63 | 0% |
| Economaidd anweithgar - arall | 321 | 2% | 134 | 1% | 455 | 1% |
| Economaidd anweithgar - wedi ymddeol | 62 | 0% | 61 | 0% | 123 | 0% |
| Economaidd anweithgar - myfyriwr | 7,221 | 46% | 9,963 | 64% | 17,184 | 55% |
| Ar goll | 370 | 2% | 169 | 1% | 539 | 2% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Di-waith | 1,269 | 8% | 1,184 | 8% | 2,453 | 8% |
| Gweithio | 6161 | 39% | 3814 | 24% | 9975 | 32% |
| **Cyfanswm** | 15,843 | 100% | 15,606 | 100% | 31,449 | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Mae Tabl 19 yn dangos, fel yn achos fflatiau, fod cyfran gymharol uchel o breswylwyr tai amlfeddiannaeth yn economaidd anweithgar (58%), gyda 55% ohonynt yn fyfyrwyr.l

Risg

Canfu ein hadolygiad o dystiolaeth[41] fod dadlau bod cysylltiad agos rhwng ansawdd tai ac amddifadedd a'r ffactorau risg cysylltiedig o ran achosion o danau mewn anheddau. Mae'r ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â thai o ansawdd gwael yn cynnwys gorlenwi (sy'n cynyddu'r risg o anaf os bydd tân yn dechrau), a diffygion wrth gynnal a chadw ardaloedd cymunol, llwybrau dianc a larymau mwg.

Mae'n llai tebygol y bydd gan aelwydydd incwm isel yswiriant i ddiogelu eu hunain rhag y risg o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau[42]. Nid oes gan 60% o aelwydydd sy'n ennill £15,000 neu lai y flwyddyn yswiriant cynnwys, sy'n golygu bod difrod i eiddo yn cael effaith fwy sylweddol sy’n para’n hirach.

Gan fod aelwydydd incwm isel yn wynebu mwy o risg, drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, bydd y Bil yn anghymesur o fuddiol i aelwydydd incwm isel.

Cost

Mae pobl mewn aelwydydd heb waith yn wynebu mwy o risg o dlodi, gyda dros hanner yr oedolion o oedran gweithio (56%) mewn aelwydydd heb waith yn byw mewn tlodi[43]. Fodd bynnag, am fod cyfran mor uchel o'r boblogaeth yn gweithio, roedd tua dwy ran o dair o oedolion o oedran gweithio mewn tlodi yn byw mewn aelwyd lle roedd rhywun yn gweithio, er bod gan yr aelwydydd hyn gyfran dlodi llawer is (15%).

Mae aelwydydd incwm isel ag anghenion gwariant ychwanegol, er enghraifft, am fod rhywun yn eu haelwyd yn anabl neu am eu bod yn byw mewn ardal â chostau tai uchel, yn wynebu mwy o bwysau ariannol[44].

---

[41] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[42] The hidden risks of being poor: the poverty premium in insurance, A report by the Institute and Faculty of Actuaries and Fair By Design IFoA_Hidden_Risks_of_Being_Poor_Aug_21_v09.pdf

[43] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[44] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod aelwydydd mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil yn fwy tebygol o brofi cyfraddau is o gyflogaeth a chyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd nag aelwydydd yn gyffredinol, sy'n arwain at incwm is. Bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith fwy sylweddol ar aelwydydd incwm isel nag aelwydydd eraill.

### Trawsbynciol

Wrth gwrs, efallai y bydd gan bobl sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig a drafodir uchod. Mae rhai o'r effeithiau mwyaf sylweddol ar bobl â mwy nag un nodwedd warchodedig yn cynnwys y canlynol:

Pobl hŷn sy'n anabl: Mae anabledd yn fwy cyffredin ymhlith pensiynwyr[45]. Rydym wedi dangos uchod bod pobl hŷn a phobl anabl yn wynebu mwy o risg o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau, felly gallwn ddisgwyl i'r grŵp hwn gael budd sylweddol o'n cynigion. Fodd bynnag, gallai pobl anabl hŷn hefyd wynebu mwy o risg y bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith negyddol arnynt.

Pobl anabl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol: Mae pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a phobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai. Mae pobl anabl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn wynebu mwy o risg y bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith negyddol arnynt.

Pobl anabl sengl: Mae pobl sengl a phobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai. Mae pobl anabl sengl yn wynebu mwy o risg y bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith negyddol arnynt. Gall y risg fod yn uwch byth i fenywod anabl sengl.

### Llais Preswylwyr

Mater a nodwyd gan Tai Pawb mewn ymateb i'n papur gwyn, gwaith ymchwil heb ei gyhoeddi gyda lesddeiliaid ethnig leiafrifol, a'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng landlordiaid, lesddeiliaid a thenantiaid.

Nododd llawer o randdeiliaid nad yw defnyddio un dull i gyfathrebu â phawb yn gweithio. Yn hytrach, yr hyn sy'n allweddol yw cyfathrebu mewn ffordd bersonol gan ystyried anghenion preswylwyr a'r math o gartref sydd ganddynt. Nododd rhanddeiliaid ei bod yn bwysig meithrin ymddiriedaeth gyda phreswylwyr er mwyn cadw eu cartrefi yn ddiogel. Mae angen i landlordiaid wrando ar breswylwyr a chydgynhyrchu strategaethau ymgysylltu er budd preswylwyr a landlordiaid.

[45] Households below average income: an analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2023, Llywodraeth y DU, Mawrth 2024, Households Below Average Income: an analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2023 - GOV.UK

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob person atebol ddarparu lefel ofynnol o wybodaeth am ddiogelwch yr adeilad i'r preswylwyr, a bydd manylder yr wybodaeth a ddarperir yn gymesur â chymhlethdod yr adeilad. Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd gofynion ychwanegol ar y prif berson atebol i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyflawni'r Strategaeth honno. Bwriedir i'r Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr fod yn ddiffuant ac yn barhaus er mwyn cynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt. Bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a llunio canllawiau. Mae Gweinidogion yn bwriadu defnyddio'r rhain er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r prif berson atebol ystyried anghenion preswylwyr wrth ymgynghori ar y Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr ac wrth ddarparu gwybodaeth amdani.

Bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson atebol ar gyfer adeilad categori 1, 2 a 3 roi gwybodaeth i breswylwyr. Gallai'r rheoliadau bennu sut y mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhoi ac ym mha ffurf. Mae Gweinidogion yn bwriadu defnyddio rheoliadau a chanllawiau i nodi bod yn rhaid i'r wybodaeth a roddir i breswylwyr fod yn hygyrch ac ystyried anghenion y preswylwyr. Mae Gweinidogion hefyd yn bwriadu gwneud rheoliadau sy'n nodi sut y dylid gwneud gwybodaeth gymhleth a thechnegol yn ddealladwy i breswylwyr. Drwy wneud hynny, mae Gweinidogion yn bwriadu sicrhau bod gwybodaeth mor hygyrch â phosibl i breswylwyr, ni waeth beth fo'u nodweddion.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif berson atebol ar gyfer adeilad categori 1 sefydlu a gweithredu system i ymchwilio i gwynion perthnasol. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r system gwyno ar gyfer adeiladau categori 1, gan gynnwys: pwy all wneud cwyn, sut y gellir gwneud cwyn, yr amserlen ar gyfer ystyried cwyn ac ymdrin â hi, a sut mae'n rhaid gwneud hynny. Mae Gweinidogion yn bwriadu gwneud rheoliadau a llunio canllawiau i nodi bod yn rhaid i'r prif berson atebol ystyried demograffeg preswylwyr wrth hysbysu preswylwyr sut y gallant wneud cwyn, yn ogystal â nodi y caiff pob preswylydd wneud cwyn gan ddefnyddio'r dull o'i ddewis. Drwy wneud hynny, mae Gweinidogion yn ceisio gwneud y system gwyno ar gyfer adeiladau categori 1 yn hygyrch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion.

Ar gyfer adeiladau categori 2 a 3, bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i berson atebol wneud trefniadau ar gyfer ystyried cwynion perthnasol a'u rhoi ar waith. Fel gydag adeiladau categori 1, mae Gweinidogion yn bwriadu gwneud rheoliadau y bwriedir iddynt wneud y system gwyno ar gyfer adeiladau categori 2 a 3 yn hygyrch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion.

Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod diogelwch adeiladau sefydlu a gweithredu system i ymchwilio i gwynion perthnasol. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â sefydlu a gweithredu'r systemau cwyno hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio eu pwerau gwneud rheoliadau i alluogi preswylwyr i gwyno'n uniongyrchol i awdurdodau diogelwch adeiladau mewn sefyllfaoedd penodol.

## Asesiadau Effaith Pellach

Cynhelir asesiadau effaith pellach fel y bo'n briodol pan gaiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud o dan bwerau'r Bil. Cynhelir ymgynghoriad priodol mewn perthynas ag unrhyw is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol a, lle bo hynny'n briodol, bydd cyfleoedd i ymgysylltu'n llawn â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig penodol, tra bod y polisi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau ar y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Gweler y ddogfen ganllaw ar Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth.)* Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych wedi'u nodi a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys nodi'r hyn y gallwn ei wneud i ddileu rhwystrau a gwella lefelau cyfranogiad pobl heb gynrychiolaeth ddigonol neu bobl sydd o dan anfantais anghymesur.

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran: Pobl hŷn (65 oed a throsodd) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Bydd preswylwyr hŷn yn cael budd anghymesur o lefel well o ddiogelwch.<br><br>Bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith anghymesur ar rai preswylwyr hŷn.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer pobl atebol hŷn. | Mae pobl hŷn yn wynebu mwy o risg o farwolaeth neu anaf mewn tân.<br><br>Nododd rhanddeiliaid fod gan bobl hŷn ofynion penodol o ran cyfathrebu ac ymgysylltu.<br><br>Er nad yw pobl hŷn yn gyffredinol yn wynebu risg arbennig o uchel o dlodi, mae rhai pobl hŷn yn wynebu mwy o risg o dlodi. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Pobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi, yn breifat neu drwy'r sector cymdeithasol.<br>• Pobl Ddu ac Asiaidd hŷn.<br>• Menywod sengl hŷn. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran: Oedolion o oedran gweithio (24-65 oed) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys oedolion o oedran gweithio.<br><br>Ni fydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith anghymesur ar oedolion o oedran gweithio.<br><br>Gallwn dybio bod personau atebol yn fwy tebygol o fod o oedran gweithio ac felly bydd effaith anghymesur ar y grŵp hwn yn sgil y dyletswyddau a osodir arnynt. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y byddai personau atebol o oedran gweithio yn wynebu heriau penodol yn sgil eu hoedran wrth | Oedolion o oedran gweithio heb blant yw'r grŵp mwyaf o breswylwyr mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.<br><br>Bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bawb sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ond nid yw oedolion o oedran gweithio yn wynebu risg arbennig o uchel o gymharu â grwpiau oedran eraill.<br><br>Mae lefelau tlodi ymhlith oedolion o oedran gweithio ar eu huchaf ar ddechrau a thuag at ddiwedd eu bywyd gwaith (cyn 24 oed ac ar ôl 60 oed)[46]. Felly, nid yw'r grŵp oedran hwn yn wynebu mwy o risg o dlodi. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

[46] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyflawni eu dyletswyddau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran: Pobl ifanc (16-24 oed) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc.<br><br>Mae'r dyletswyddau ar bersonau atebol i ymgysylltu â phreswylwyr ond yn gymwys i breswylwyr sy'n oedolion ac felly bydd pobl ifanc 16 a 17 oed o dan anfantais.<br><br>Gallai cost y gyfundrefn newydd effeithio ar gyfran ychydig yn fwy o bobl ifanc na'r gyfran o'r boblogaeth gyfan.<br><br>Ni fydd pobl ifanc o dan 18 oed yn bersonau atebol am nad ydynt yn ddigon hen i fod yn berchen ar eiddo. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer pobl atebol | Nododd rhanddeiliaid fod gan bobl ifanc ofynion penodol o ran cyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd yn ofynnol i bersonau atebol ddarparu lefel ofynnol o wybodaeth am ddiogelwch yr adeilad i breswylwyr sy'n oedolion, a bydd manylder yr wybodaeth a ddarperir yn gymesur â chymhlethdod yr adeilad. Fodd bynnag, gan na all pobl o dan 18 oed fod yn berchen ar eiddo na rhentu eiddo, ni fydd yn ofynnol i bersonau atebol roi gwybodaeth i bobl ifanc sy'n 16 a 17 oed.<br><br>Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd gofynion ychwanegol ar y prif berson atebol i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyflawni'r Strategaeth honno. Dylai'r Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr fod yn ddiffuant ac yn barhaus er mwyn cynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt. Unwaith eto, ni fydd hyn yn gymwys i bobl ifanc sy'n 16 a 17 oed. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ifanc rhwng 18 a 24 oed. | Mae tua un o bob pedwar person 16–24 oed (24%) mewn tlodi o gymharu â'r gyfradd dlodi gyfartalog ar gyfer poblogaeth gyfan Cymru a'r DU, sef 22%. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[47] a'r | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir | Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol. |

[47] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan amhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, y bydd eich cynnig. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariad) | i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Bydd pobl anabl yn cael budd anghymesur o lefel well o ddiogelwch.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl anabl na'r boblogaeth gyfan.<br><br>Gallai rhai personau atebol anabl wynebu mwy o heriau a chostau wrth gydymffurfio â'r dyletswyddau y mae'r Bil yn eu gosod arnynt. Fodd bynnag, ni ddylai hynny danseilio cyfrifoldeb person atebol anabl i reoli diogelwch yr adeilad. | Mae pobl anabl yn wynebu mwy o risg o farwolaeth neu anaf mewn tân.<br><br>Nododd rhanddeiliaid fod gan bobl anabl ofynion penodol o ran cyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd yn ofynnol i bob person atebol ddarparu lefel ofynnol o wybodaeth am ddiogelwch yr adeilad i'r preswylwyr, a bydd manylder yr wybodaeth a ddarperir yn gymesur â chymhlethdod yr adeilad. Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd gofynion ychwanegol ar y prif berson atebol i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyflawni'r Strategaeth honno. Dylai'r Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr fod yn ddiffuant ac yn barhaus er mwyn cynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt.<br><br>Mae pobl anabl yn wynebu mwy o risg o dlodi, yn enwedig y canlynol:<br><br>• Y rhai sy'n byw mewn aelwydydd ag | Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oedolion a phlant anabl.<br>• Y rhai sydd ag amhariadau meddyliol hirdymor a chyfyngus. | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl draws.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn annhebygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl draws na'r boblogaeth gyfan.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer pobl atebol draws. | Bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bawb sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ond nid yw pobl draws yn wynebu risg arbennig o uchel o gymharu â phreswylwyr eraill.<br><br>Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod pobl draws yn wynebu mwy o risg o dlodi. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion | Mae plant yn llai cyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd. Fodd bynnag, mae aelwydydd un rhiant yr un mor gyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys menywod beichiog a mamau.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar fenywod beichiog a mamau sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil na'r boblogaeth gyfan mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil. Mae hyn yn arbennig o wir am rieni sengl. Fodd bynnag, mae mamau yn llai tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag mewn mathau eraill o dai.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer menywod beichiog neu famau sy'n bersonau atebol. | randai ag y maent ym mhob annedd. Mae aelwydydd un rhiant yn wynebu mwy o risg o farwolaeth neu anaf mewn tân.<br><br>Mae cael plant a bod yn fenyw yn ffactorau a all gynyddu'r risg o dlodi. Felly, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar fenywod beichiog a mamau na'r boblogaeth gyfan. Mae bod yn sengl yn ffactor arall sy'n cynyddu'r risg o dlodi, felly efallai y bydd effaith fwy sylweddol ar famau sengl. | |
| Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion | Mae aelwydydd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd.<br><br>Mae tystiolaeth bod aelwydydd Du, Asiaidd | Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio canllawiau i godi ymwybyddiaeth ymhlith personau atebol bod preswylwyr o leiafrifoedd ethnig yn llai tueddol i wneud cwyn am eu bod yn ofni ôl- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol na'r boblogaeth gyfan.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer personau atebol Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. | neu ethnig leiafrifol yn dioddef yn sgil cyfathrebu gwael gan landlordiaid ac anawsterau wrth geisio gwneud cwyn. Bydd yr aelwydydd hyn yn cael budd penodol o ddyletswyddau a osodir ar bersonau atebol i ymgysylltu â phreswylwyr, gweithredu system gwyno neu drefnu bod cwynion preswylwyr yn cael eu hystyried (fel y bo'n gymwys).<br><br>Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad oedd preswylwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol bob amser yn ymwybodol o'u hawliau. Bydd y ddyletswydd ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr yn lliniaru'r risg hon.<br><br>Mae pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn wynebu mwy o risg o dlodi. | effeithiau. Bydd canllawiau'n bwysig hefyd er mwyn helpu preswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i ddeall eu hawl i wneud cwynion am ddiogelwch adeiladau i bersonau atebol.<br><br>Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| Crefydd a chred a diffyg cred | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni | Bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bawb sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ond nid yw pobl yn wynebu risg arbennig o uchel o | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl o bob crefydd a chred a'r rhai sydd heb gred.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn annhebygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl oherwydd eu crefydd neu gredoau.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer personau atebol o ganlyniad i grefydd, cred neu ddiffyg cred. | ganlyniad i'w crefydd neu gredoau.<br><br>Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod pobl yn wynebu mwy o risg o ganlyniad i'w crefydd neu gredoau. | Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| Rhyw / Rhywedd | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig.<br><br>Gallai cost y gyfundrefn newydd gael effaith anghymesur ar fenywod.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer personau atebol | Mae cyfrannau tebyg o fenywod a dynion yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai.<br><br>Gallai menywod wynebu mwy o risg o dlodi na dynion. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o ganlyniad i'w rhyw neu rywedd. | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn annhebygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol na'r boblogaeth gyfan.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer personau atebol o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol. | Bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bawb sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ond nid yw pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn wynebu risg arbennig o uchel o gymharu â phreswylwyr eraill.<br><br>Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn wynebu mwy o risg o dlodi. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i | Mae preswylwyr fflatiau, fflatiau deulawr neu randai yn fwy tebygol o fod yn sengl.<br><br>Gall costau tai i gwpl fod yn debyg i gostau tai i bobl sengl, ond gall eu hincwm fod ddwywaith | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nodweddion gwarchodedig.<br><br>Bydd cost y gyfundrefn newydd yn cael effaith anghymesur ar breswylwyr sengl.<br><br>Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar gyfer personau atebol o ganlyniad i'w statws priodasol. | yn fwy. Felly, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl sengl na'r boblogaeth gyfan. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc hyd at 18 oed.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar blant sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil na'r boblogaeth gyfan mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil. Fodd bynnag, mae plant yn llai tebygol o | Mae plant yn llai cyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd. Fodd bynnag, mae aelwydydd un rhiant yr un mor gyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai ag y maent ym mhob annedd. Mae aelwydydd un rhiant yn wynebu mwy o risg o farwolaeth neu anaf mewn tân, ond mae plant yn gyffredinol yn wynebu llai o risg.<br><br>Mae plant yn wynebu mwy o risg o dlodi. Mae plant yn wynebu risg arbennig o uchel o dlodi os ydynt yn byw yn y canlynol:<br><br>• Aelwydydd un rhiant | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fyw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil nag mewn mathau eraill o dai.<br><br>Gweler hefyd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | • Aelwydydd mawr<br>• Aelwydydd Du neu Asiaidd<br>• Cartrefi rhent<br><br>Fodd bynnag, mae aelwydydd â phlant yn llawer llai tebygol o fyw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai nag ym mhob annedd. Mae aelwydydd â 3 phlentyn neu fwy yn arbennig o anghyffredin mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai. | |
| Aelwydydd incwm isel | Drwy wella'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bob preswylydd, gan gynnwys aelwydydd incwm isel.<br><br>Mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar aelwydydd incwm isel nag ar bob aelwyd. | Mae 37% o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yn profi amddifadedd materol o gymharu â 17% o aelwydydd sy'n byw mewn tai/byngalos. | Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod costau i breswylwyr yn rhesymol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi? (*Gweler pwynt 1.4 o'r Canllawiau ar Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fywyd (erthygl 2) | Effaith gadarnhaol: Bydd y Bil yn gwneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel | Dyma yw diben y Bil. | Dd/G |
| Yr hawl i gael treial teg (erthygl 6) | Effaith gadarnhaol: Bydd camau gorfodi a sancsiynau sy'n deillio o achosion o dorri'r dyletswyddau a gyflwynir gan y Bil yn cydymffurfio â'r hawl i gael treial teg. | Gallai personau atebol ddehongli'r dyletswyddau neu'r gofynion sy'n gymwys iddynt mewn ffordd anghywir. Rhaid i awdurdodau diogelwch adeiladau gael y pŵer i wneud penderfyniadau/dyfarniadau yn achos materion sy'n peri anghydfod, fel y gellir cymhwyso'r Bil yn gyson a diogelu preswylwyr.<br><br>Credir bod cyfiawnhad dros y darpariaethau a geir yn y Bil a'u bod yn gymesur ac yn cydymffurfio ag A1P1 ac Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. | Bydd hawl i adolygu penderfyniadau penodol a wneir gan yr awdurdod diogelwch adeiladau ac apelio yn eu herbyn yn ddiweddarach, os bydd y person dan sylw yn herio'r penderfyniadau, er enghraifft, penderfyniadau sy'n ymwneud â gwybodaeth gofrestru adeilad.<br><br>Yn achos gweithgareddau gorfodi, bydd naill ai hawl i apelio yn eu erbyn, e.e. yn erbyn hysbysiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cydymffurfio neu hysbysiadau gwahardd, neu bydd cyfle i gyflwyno amddiffyniad, e.e. erlyniadau, ac mewn achosion lle bydd hawliau dilynol i apelio yn gymwys i benderfyniadau'r llys. |
| Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth (erthygl 8) | Effaith negyddol: Bydd y Bil yn galluogi personau atebol a'r awdurdod diogelwch adeiladau i fynd i mewn i anheddau preifat yn amodol ar reolaethau priodol.<br><br>Effaith negyddol: Bydd y Bil yn cyfyngu ar ymddygiad preswylwyr mewn rhai ffyrdd. | Ar adegau, gallai fod angen i bersonau atebol neu'r awdurdod diogelwch adeiladau fynd i mewn i annedd breifat at ddibenion diogelwch adeiladau.<br><br>Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar breswylwyr mewn perthynas â diogelwch tân a diogelwch strwythurol yn ogystal â gofynion ynghylch rhoi gwybodaeth. | Bydd y Bil yn cyflwyno rheolaethau priodol i ddiogelu hawliau preswylwyr.<br><br>Bydd y dyletswyddau a osodir ar breswylwyr yn gyfyngedig ac yn benodol. Byddwn yn hysbysu ac yn addysgu preswylwyr ynghylch sut y gall eu hymddygiad helpu i gadw nhw eu hunain a phreswylwyr eraill yn ddiogel. |
| Yr hawl i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu (erthygl 14) | Effaith gadarnhaol: Drwy osod dyletswyddau ar bersonau atebol i roi gwybodaeth i breswylwyr, ymgysylltu â phreswylwyr a rhoi prosesau cwyno ar waith, un o nodau'r Bil | Mae rhai preswylwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi dweud nad ydynt wedi cael eu trin yn gyfartal gan landlordiaid. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau atebol roi gwybodaeth i breswylwyr, ymgynghori â phreswylwyr | Dd/G |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yw y bydd pob preswylydd yn cael ei drin yn gyfartal | adeiladau categori 1 ynghylch penderfyniadau am ddiogelwch adeiladau a threfnu bod cwynion preswylwyr yn cael eu hystyried. Bwriedir i'r broses gwyno dau gam sicrhau bod cwynion preswylwyr yn cael eu hystyried yn deg a bydd modd i breswylwyr wneud cwyn i'r awdurdod diogelwch adeiladau mewn sefyllfaoedd penodol. | |
| Yr hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon (protocol 1 erthygl 1) | Effaith negyddol: Bydd y Bil yn cyfyngu rhywfaint ar ymddygiad preswylwyr drwy osod dyletswyddau ar breswylwyr i gynnal diogelwch adeiladau yn eu heiddo ac yn ardaloedd cymunol adeiladau.<br><br>Effaith negyddol: Bydd y Bil yn ceisio rheoli'r defnydd a wneir o adeiladau sydd o fewn y cwmpas ac yn gosod dyletswyddau ar bersonau atebol, er enghraifft, i gofrestru adeiladau penodol a | Gall preswylwyr ddisgwyl bod ganddynt y rhyddid i wneud fel y mynnant yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar breswylwyr a pherchnogion unedau preswyl mewn perthynas â diogelwch tân a diogelwch strwythurol yn ogystal â gofynion ynghylch rhoi gwybodaeth.<br><br>Mae'r dyletswyddau y mae'r Bil yn eu gosod ar bersonau atebol yn ofynnol er mwyn gwneud adeiladau'n fwy diogel. | Bydd y dyletswyddau a osodir ar breswylwyr yn gyfyngedig ac yn benodol. Bydd canllawiau'n bwysig er mwyn helpu preswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y gyfundrefn newydd.<br><br>Bydd gwybodaeth am y dyletswyddau ar gael i bersonau atebol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chynnal asesiadau diogelwch penodol. | | |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[48] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.[49]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[50], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ymhlith y materion polisi i'w hystyried mae:

- Ydych chi wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir eu bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effeithiau eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi p'un a yw'r effaith yn gadarnhaol neu'n negyddol ac unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i ddileu effaith negyddol bosibl. Nodwch y sail dros eich ateb, gan gynnwys achosion lle gofynnwyd am gyngor cyfreithiol a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

[48] Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[49] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

[50] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â wynebu gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU

(Gall gweithwyr trawsffiniol (dinasyddion sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac yn gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

Ni fydd y Bil yn cael effaith wahaniaethol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion.